# Adroddiad Blynyddol gan Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol

GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

## Yn Adrodd ar Effeithioldeb Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd 2009/10

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

Gorffennaf 2010

# CYNNWYS


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad y Cyfarwyddwr Statudol | Tudalen 1 |
| 2. | Crynodeb o'r Prif Faterion | Tudalen 3 |
| 3. | Cyd-destun a Gwybodaeth am yr Ardal | Tudalen 4 |
| 4. | Rhaglen Wella'r Adolygiad ar y Cyd | Tudalen 7 |
| 5. | Y Cyd-destun Ariannol | Tudalen 8 |

**Ein Blaenoriaethau: Rhan 1 – Cyfrifoldebau Craidd**

| | | |
|---|---|---|
| 6. | Diogelu a Chadw Pobl yn Ddiogel | Tudalen 11 |
| 7. | Gwasanaethau Trosglwyddo | Tudalen 12 |
| 8. | Gofalwyr | Tudalen 13 |
| 9. | Arweinyddiaeth | Tudalen 13 |

**Ein Blaenoriaethau: Rhan 2 – Prif Feysydd Blaenoriaeth ar gyfer 2010/11**

| | | |
|---|---|---|
| 10. | Comisiynu a Datblygu Gwasanaethau | Tudalen 15 |
| 11. | Gweithlu | Tudalen 17 |
| 12. | Perfformiad ac Adnoddau | Tudalen 19 |
| 13. | Gwaith Partneriaeth ac Ymgysylltu | Tudalen 21 |

Atodiadau:

1. Atodiad 1 - Rhestr Gridiau Tystiolaeth
2. Atodiad 2 – Proffil Ardal Gwynedd
3. Atodiad 3 – Crynodeb Dangosyddion Perfformiad
4. Atodiad 4 – Rhestr Termau
5. Atodiad 5 – Canlyniadau'n Cyfrif (Cerdyn Adrodd) Gofalwyr

**Adroddiad Blynyddol gan Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol**

# Yn adrodd ar Effeithioldeb Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd 2009/10

## 1. CYFLWYNIAD

### 1.1 Pwrpas yr Adroddiad a'r Broses

Pwrpas yr Adroddiad hwn ydy rhannu gwybodaeth am berfformiad ac effeithioldeb Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd yn ystod blwyddyn ariannol 2009/10 ac amlinellu'r materion hynny y cytunwyd arnynt fel y rhai pwysicaf i roi sylw iddynt yn ystod y flwyddyn i ddod.

Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei baratoi yn dilyn cyfnod o newid sylweddol o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol, Mae rhagor o newidiadau ar fin cael, neu yn cael eu cyflwyno i wella gwasanaethau a'u gwneud yn fwy cost-effeithiol. Bydd hyn yn bwysig iawn wrth i ni ymateb i'r anawsterau sy'n cael eu rhagweld yn sgîl y tocio ar wasanaethau cyhoeddus mewn meysydd lle gwyddom fod y nifer sydd eisiau gwasanaethau o safon uchel yn cynyddu.

Fe fydd yr adroddiad hwn yn cael ei rannu gydag aelodau staff, aelodau o'r cyhoedd a phartneriaid sy'n gweithio gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae wedi'i baratoi yn unol â'r gofynion cyfreithiol yn "Rôl ac Atebolrwydd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol" (Mehefin 2009) a'r "Fframwaith Cyflwyno Adroddiadau Blynyddol - Pecyn Cymorth". Bydd gwasanaethau arolygu, fel Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Swyddfa Archwilio Cymru (SAC), hefyd yn defnyddio'r adroddiad hwn er mwyn cynllunio eu rhaglen arolygu o fewn Cyngor Gwynedd.

Dyma'r flwyddyn gyntaf i'r adroddiad hwn gael ei baratoi a'i gyflwyno i'r Cyngor llawn. Adroddiad trosolwg sydd yma. Ni fu'n bosib cynnwys yr holl raglen waith nac ychwaith manylu ar y materion hynny sy'n cael eu cynnwys. Croesawir cysylltiad uniongyrchol gyda'r Gwasanaeth os am dderbyn fwy o fanylder ac os am drafod y cynnwys ymhellach. Gellwch gysylltu â'n Huned Gofal Cwsmer gydag unrhyw gwestiyn neu sylw:

Uned Gofal Cwsmer, Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl , Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH, e-bost: gcgc@gwynedd.gov.uk ☎: 01286 679268

Mae proses llunio'r adroddiad wedi cynnwys sawl cam gan gynnwys:

- Paratoi hunanasesiadau sy'n nodi gwybodaeth gefndir a thystiolaeth fel sail i'r datganiadau a'r dyfarniad a wnaed (gridiau tystiolaeth) gan reolwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (**gweler Atodiad 1**)
- Diwrnod 'herio' yng nghwmni bron i 50 o bartneriaid a chynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau i rannu sylwadau am ddatganiadau a dyfarniad y Gwasanaethau (20fed Ebrill 2010)
- Diwrnod 'herio' a chyfarfod briffio a gynhaliwyd i bob Aelod Etholedig (Mai 2010)
- Holiadur a anfonwyd at dros 3000 o ddefnyddwyr y gwasanaethau (Chwefror 2010) yn eu holi am ansawdd ein gwasanaethau
- Datblygu Cynllun Busnes i weithredu ar y gwelliannau a gafodd eu nodi.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb sy'n gweithio i ddarparu Gwasanaethau Cymdeithasol yma yng Ngwynedd. O fewn y Cyngor, mae'r bobl sy'n cael eu cyflogi gan y Gwasanaethau Cymdeithasol, yn y Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, wedi gweithio'n galed i ddarparu ac i wella'r gwasanaethau. Mae Adrannau eraill hefyd wedi cyfrannu at ein llwyddiannau. megis Gwasanaeth Darparu a Hamdden Cyngor Gwynedd. Mae cyfraniad yr Aelodau Etholedig wedi bod yn hollbwysig wrth i bolisïau a phenderfyniadau gael eu cymeradwyo gan y broses ddemocrataidd. Fodd bynnag, mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys mwy na dim ond y rhai sy'n cael eu cyflogi gan yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae hefyd yn cynnwys pawb sy'n rhannu'r gwaith o ddarparu'r gwasanaethau gyda ni o'r Trydydd Sector a darparwyr annibynnol. Gyda'n gilydd, rydym yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau allweddol i bobl a theuluoedd pan maent eu hangen fwyaf.

Ar ddiwedd y dydd, mae'n rhaid i ni fesur ein hymdrechion ar sail y gwahaniaeth a wnawn i blant, oedolion a gofalwyr sydd angen Gwasanaethau Cymdeithasol. Y gobaith yw y bydd yr adroddiad hwn yn ein helpu ni i ddeall y pethau yr ydym wedi'u cyflawni, y pethau sydd wedi mynd yn dda a phethau ddim cystal, a beth mwy y mae angen ei wneud.





**Gwen Carrington**

**Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol (Cyfarwyddwr Statudol)**

# Crynodeb o'r Prif Faterion

**Mae Gwasanaethau Cymdeithasol wedi llwyddo i gyflawni rhaglen newid sylweddol ond mae angen cyflymu'r broses newid darpariaeth. Mae hyn yn sgîl yr angen i fod yn fwy atebol i ddisgwyliadau ein defnyddwyr ac i wneud yn siwr ein bod yn cael y gwerth gorau am arian.**

**Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn darparu gwasanaeth saff pan ystyrir gofynion diogelu plant a maes gwaith oedolion bregus ac mae cynnydd wedi bod yn ein trefniadau rheoleiddio a chysoni ymarfer.**

**Mae gan y Gwasanaeth a'r Cyngor weithlu ymroddedig a chydwybodol.**

**Mae adborth gan ddefnyddwyr yn adrodd ynglŷn â gwerth y Gwasanaeth gyda'r mwyafrif yn nodi eu bod o safon dda ac yn amserol.**

**Mae'r Gwasanaeth wedi llwyddo i sicrhau cynnydd mewn perfformiad ar waethaf y ffaith fod y nifer sy'n derbyn a gofyn am wasanaethau yn tyfu.**

**<u>Er mwyn gwella gwasanaethau mae'n rhaid i'r Gwasanaeth a'r Cyngor:</u>**


- **barhau ar y rhaglen wella o ran cywirdeb ac ansawdd data**
- **wella'r wybodaeth sydd ar gael ar gyfer defnyddwyr a phartneriaid**
- **wella trefniadau comisiynu er mwyn sicrhau ymateb cynt i ofynion defnyddwyr a gwerth am arian**
- **gyflawni'r rhaglen newid yn gynt er mwyn ymateb i anghenion y dinesydd ac osgoi gorwariant sylweddol yn y dyfodol**

## 1.2 Cyd-destun a Gwybodaeth am yr Ardal

Yn ôl amcangyfrifon canol-blwyddyn 2008, yr oedd poblogaeth Gwynedd dros 118,000. Mae hyn yn cymharu â phoblogaeth gyfartalog ar draws holl awdurdodau lleol Cymru o 136,000 a chyfartaledd o 121,000 ar draws awdurdodau tebyg (Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru 2010). Gweler **Atodiad 2** i gael proffil ardal llawn ar gyfer Gwynedd.

Mae'r Sir yn ymestyn dros arwynebedd o 2,548 cilomedr sgwâr, gyda'r prif aneddiadau yng Nghaernarfon, Bangor, Porthmadog a Dolgellau. Mae'n cymryd oddeutu 2 awr i deithio o ogledd Gwynedd i dde'r sir sy'n golygu taith o 4 awr y ddwy ffordd. Rhaid ystyried hyn wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

Mae Gwynedd yn ffinio â siroedd Conwy a Dinbych i'r dwyrain, Powys i'r de-ddwyrain a Cheredigion i'r de. Mae'r Sir wedi'i chysylltu ag Ynys Môn i'r gogledd drwy bontydd ffordd a thrên. Gwynedd yw'r Awdurdod Unedol mwyaf yng Nghymru o ran arfordir, yn ymestyn i 301 o gilomedrau ynghyd â mynyddoedd Eryri a llynnoedd.





*Ffigur 1: Gwynedd ynghyd â chanolfannau poblogaeth*

Ers 2005/06 mae nifer yr oedolion sy’n derbyn gwasanaethau (cymunedol a phreswyl) wedi cynyddu o 4190 (2005/06) i 5753 (2009/10) sy’n dwf o 37.30%. Awgryma’r patrymau fod pobl yng Nghymru yn byw’n iachach ac yn hirach, sy’n golygu eu bod yn fwy tebygol o ddefnyddio gofal cymdeithasol, o ryw fath neu’i gilydd, dros gyfnodau hwy yn y dyfodol. Gwyddom fod patrwm y galw am wasanaethau yn debygol o gynyddu wrth i oedran y boblogaeth gynyddu. Awgryma Amcanestyniadau Awdurdodau Lleol 2006 y bydd patrwm oedran y boblogaeth yn newid yn sylweddol iawn dros yr 20 mlynedd nesaf gyda chynnydd yn y boblogaeth o bobl dros 75 oed (Ffigur 2). Rhagwelir cynnydd o 35% yn y nifer sydd yn dioddef o ddementia yng Ngwynedd rhwng nawr a 2021. Rhagdybir hefyd y bydd niferoedd y plant a’r bobl ifanc yng Ngwynedd yn cynyddu rhwng 2006 a 2026 o 26,186 i 27,579, ond yn gostwng fel cyfran gyffredinol wrth i’r boblogaeth heneiddio. Mae plant a phobl ifanc a chanddynt anghenion cymhleth hefyd yn byw’n hirach a bydd y tueddiad hwn yn parhau, gan gynyddu’r galw am wasanaethau.

Mae nifer y plant a’r bobl ifanc sy’n cael eu cyfeirio at y Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn cynyddu, 4870 yn 2008/09 o’i gymharu â 5,041 yn 2009/10, cynnydd o 3.5%.

Mae bob un o’r ffactorau hyn yn cael effaith uniongyrchol ar y ffordd y byddwn yn darparu ac yn cynllunio gwasanaethau. Mae’n golygu y gall teuluoedd deimlo, yn aml iawn, eu bod yn byw yn bell oddi wrth wasanaethau a bod yn rhaid i staff deithio cryn bellter.




***Ffigur 2:*** *Rhagamcaniadau Poblogaeth ar gyfer Gwynedd*

*(Ffynhonnell: Rhagamcaniadau’r Swyddfa Ystadegau Gwladol).*

Mae'r weledigaeth ar gyfer Gofal Cymdeithasol, a gytunwyd gan y Cyngor yn Rhagfyr 2008, yn parhau:

> ***"Ein Pwrpas*** ***yw mynd i'r afael ag anfantais, ynghyd â diogelu ac adeiladu ar gryfderau unigolion.***
> ***Ein huchelgais*** ***ar gyfer 2010/11 yw gwasanaethu'r holl bobl yn dda, cael allbynnau o ansawdd uchel ac i bobl fod â rhagolygon rhagorol ar gyfer y dyfodol.***
> ***Ein gwerthoedd*** ***- bydd pwyslais ar degwch, codi disgwyliadau, grymuso, annibyniaeth a rhoi'r person yn ganolog.***
> ***Ein cyfundrefn*** ***- bydd pwyslais ar arweinyddiaeth a chyfathrebu effeithiol mewn amgylchedd sy'n edrych ymlaen i'r dyfodol, sy'n barod i newid, sy'n meddwl yn eang ac yn bwrpasol heb ormod o fiwrocratiaeth."***

Yr her yw gwneud yn siŵr fod staff, partneriaid a theuluoedd yn gwybod beth y mae hyn yn ei olygu. Mae angen i ni fod yn gliriach ynghylch beth yr ydym yn ei olygu gyda gwasanaeth 'o ansawdd da' a sut yr ydym yn gwybod fod y gwasanaethau y mae pobl yn eu cael yn Nhywyn, er enghraifft, yn cyfateb neu'n gyson â'r rhai y mae pobl yn eu cael ym Mangor. Mae'n rhaid i "ansawdd" hefyd gynnwys p'un a yw'r hyn a wnawn yn cyfateb i'r hyn y mae teuluoedd ac unigolion ei "angen" yn ogystal â'r gost. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gwneud llawer dros y flwyddyn ddiwethaf i geisio deall yn well sut y mae gwasanaethau'n cael eu darparu, y gost o wneud hynny a chan bwy. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys staff y Cyngor ei hun, partneriaid yn ogystal â holi'r rhai sy'n derbyn gwasanaethau. O ran ymgynghori ac ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth, dyma rai enghreifftiau:

- ymynghori, yn ddiweddar, gyda dros 3,000 o unigolion o'r gwasanaethau oedolion sy'n derbyn Gwasanaethau. (Mawrth 2010)
- Y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd yn cynnal sesiynau lleisio barn bob chwarter gyda phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.
- cyfarfodydd ymgynghori gyda dros 170 aelod o'r cyhoedd (mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn bennaf) i ganfod eu barn am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a'r anghenion at y dyfodol.
- y Gwasanaeth Arbenigol Plant wedi Cynnal Diwrnod Dathlu i Deuluoedd (Ionawr 2010)
- Ymgynghoriadau trwy'r rhwydwaith Cyngor Pobl Hŷn (cymysgedd o ddefnyddwyr a dinasyddion)

**Mae enghreifftiau o'r sylwadau a gafwyd am y Gwasanaethau yn ystod gweithgareddau hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad drwyddo draw.**

> *"Dwi'n hapus efo'r ffordd yr aeth pethau yn y gynhadledd. Mi ges i gyfle i ddweud beth oeddwn i eisiau. Diolch i bawb oedd yno"*
>
> *"hapus, ond braidd yn ddiflas. Braf cael mynd allan o'r ysgol. Diddorol cael gweld beth oedd yn digwydd."*
>
> **(Holiadur i Blant a Theuluoedd - Cynadleddau Amddiffyn Plant 2009/10)**

Ar gyfer 2010/11, mae yna ymrwymiad eisoes i ehangu'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu â'r bobl sy'n derbyn ac yn darparu gwasanaethau yng Ngwynedd, a chael sylwadau ganddynt fydd yn dylanwadu ar ein cynlluniau.

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd o'r farn mai'r canlyniadau sy'n bwysig wrth werthuso gwasanaethau. Dylem fesur ein llwyddiannau drwy benderfynu a yw'r pethau a wnawn yn arwain at y canlyniadau yr oedd pobl eu heisiau yn y lle cyntaf. Wrth fesur perfformiad, nid ffigurau neu ddata yn unig sy'n cyfrif, ond profiadau hefyd. Dyma sydd wrth wraidd ein bwriad o gyflwyno'r teclyn "Canlyniadau'r Cyfrif" (Result Based Accountability) - sy'n ddull o sicrhau mai'r canlyniadau a adnabuwyd gan y defnyddwyr a darparwyr syn gosod ein blaenoriaethau (gweler Atodiad 5 – Gwella Gwasanaethau: Darpariaeth i Ofalwyr).

> *"Dwi'n meddwl fod popeth wedi mynd yn iawn ac mi ges i gyfle i ddweud beth oeddwn i eisiau. Roeddwn i'n teimlo'n gyfforddus drwy'r cyfan ac yn ddigon parod rwan i ddod i'r cyfarfod nesaf. ON. Mi faswn i'n hoffi dweud diolch i bawb oedd yn meddwl am fy niogelwch ac a ddaeth i'm cefnogi. Diolch xx"*
>
> **(Holiadur i Blant a Theuluoedd - Cynadleddau Amddiffyn Plant 2009/10)**

## 1.3 Rhaglen Wella'r Adolygiad ar y Cyd

Parhau drwy gydol 2009/10 a wnaeth y rhaglen wella yn dilyn yr Adolygiad ar y Cyd (2008). Roedd y rhaglen hon yn cynnwys nifer o brosiectau unigol ac arolygiadau pellach gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ac Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Daeth yr arolygiadau hyn i'r farn fod arferion gwaith cymdeithasol yma yng Ngwynedd yn ddiogel yn achos y Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau Plant. Nododd yr Adolygiad ar y Cyd fod gwasanaethau yn "anghyson" ond adroddwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf fod gwelliannau wedi'u cyflawni a bod arferion da yn cael eu gweld ar draws y meysydd gwaith. Nid oes lle i fod yn hunanfodlon ac mae angen cyflawni rhagor o welliannau. Mae Cyngor Gwynedd a'r arolygwyr yn cytuno fod angen i'n gwasanaethau fod yn fwy hyblyg ac ymateb yn gyflymach i'r newidiadau yn y galw, fel y nodwyd gan y cyhoedd a'u teuluoedd. Heb y gallu i wneud hyn, byddwn yn parhau i ddarparu gormod o

"O gael mwy o help, gall gofalwyr roi mwy o ofal i deulu a ffrindiau heb losgi eu hunain allan. Felly, mae buddsoddi mewn gofalwyr gwirfoddol (heb eu talu) yn gallu cadw pobl yn annibynnol yn hirach. Ond mae angen buddsoddi mewn gwell gwasanaethau seibiant sy'n fwy hyblyg (gan gynnwys gwasanaethau eistedd a seibiant ar benwythnosau)."

**(Digwyddiad Ymgynghori â Chymunedau - Anghenion Gofal Cymdeithasol at y Dyfodol, 2009/10)**

wasanaethau nad oes mo'u hangen ar bobl. Bydd hyn yn rhy gostus ac yn golygu, hefyd, na allwn ryddhau'r arian i ddarparu yr hyn y mae pobl ei eisiau mewn gwirionedd.

Erbyn diwedd mis Mawrth 2009, cytunwyd y dylid cau "Rhaglen Wella'r Adolygiad ar y Cyd" a phrif ffrydio'r gwaith o fewn proses gynllunio'r Gwasanaeth a'r Cyngor. Golyga hyn fod y prif flaenoriaethau a nodwyd wedi'u cynnwys ym Mhroses Cynllunio Tair Blynedd Cyngor Gwynedd a bod gweithgareddau allweddol eraill yn cael eu rheoli gan Dîm Rheoli y Gwasanaethau Cymdeithasol. Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n cadeirio Bwrdd y Rhaglen o fewn y strwythur hwn. Er mwyn gwneud yn siŵr fod y Cyngor yn cyflawni'r newidiadau a gynlluniwyd, mae grŵp gorchwyl o Aelodau Etholedig yn craffu gwaith y rhaglen ac yn adrodd i'r Cyngor.

Er bod yr Arolygiaeth wedi nodi'n glir fod gwelliant yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau, mae angen i'r fframweithiau perthnasol gael eu cynnal a'u gweithredu'n gyflymach. O ganlyniad i hyn. mae'r Prif Weithredwr yn cadeirio Bwrdd Comisiynu sy'n cael ei fynychu gan yr Aelod Arweiniol, Arweinydd y Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol ac Uwch Arweinydd y Portffolio Gofal. Mae'r grwp comisiynu yma'n cadarnhau perchnogaeth ar y lefel uchaf ac yn sicrhau cynnydd a chyfeiriad.

## 1.4 Y Cyd-destun Ariannol

Mae'n amlwg fod y nifer sydd angen gwasanaethau wedi cynyddu yma yng Ngwynedd, fel ym mhob rhan arall o Gymru. Mae'n amlwg hefyd fod gan lawer o bobl anghenion mwy cymhleth sy'n gallu golygu gwasanaethau drutach. Cyfanswm cyllideb y Cyngor yn ystod 2009/10 oedd £353miliwn a chyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyfrif am £69 miliwn (20%). Mae gwariant ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Ngwynedd wedi cynyddu £13.7m dros y 5 mlynedd diwethaf.

"Cynllun da (Teleofal). Cafodd fy nhad lawer o help drwy'r cynllun hwn. Arferai gysylltu os oedd yn cael anhawster ac yr oedd rhywun yn cadw goriad ac yn mynd i helpu bob tro. Mae'n syniad da iawn"


"Mae'r cynllun hwn yn bendant yn gallu gweithio (Teleofal). Dwi'n nabod rhywun sy'n ei ddefnyddio ac mae hi'n iawn ac yn ôl yn ei chartre erbyn hyn.

**(Digwyddiad Ymgynghori â Chymunedau - Anghenion Gofal Cymdeithasol at y Dyfodol, 2009/10)**

Ar gyfer 2009/10 roedd gwariant ar Wasanaethau Cymdeithasol o fewn y gyllideb a ddyrannwyd ond mae patrymau'r gwariant yn peri pryder. O fewn y Gwasanaethau Plant, bu gwelliant amlwg yn ein gallu i reoli gwariant ar leoliadau plant. Ers 2005/06 mae'r Gwasanaeth wedi lleihau'r gorwariant ar y gyllideb Lleoliadau o £841,000 i £65,000 . Roedd gorwariant hefyd ar y gyllideb Gadael Gofal. Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i geisio deall sut mae gwella ar hyn ond mae'n amlwg fod cynnydd yn y nifer o bobl ifanc sydd angen gwasanaethau yn ffactor o bwys. Mae angen cwblhau rhagor o waith er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn deall yr effaith a gaiff hyn ar y gwasanaethau sydd ar gael a'u hansawdd.

Er bod y Gwasanaethau Oedolion wedi cadw o fewn y gyllideb eleni, mae pryderon gwirioneddol am wariant y Gwasanaethau Anabledd Dysgu. Mae adolygiad yn cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn ariannol hon er mwyn deall hyn yn well. Mae ffigwr 3 yn dangos sut mae gwariant ar Gwasanaethau Anabledd Dysgu wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf ond bod y gwariant yn parhau yn is na chyfartaledd awdurdodau cymaradwy**.**

**Ffigwr 3** **Gwariant gros Gwynedd ar oedolion 18-64 oed ag anableddau dysgu wedi ei rannu'n gymesur rhwng ei ddarpariaeth ei hun a darpariaeth arall.**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cynulliad Cymru

Gwyddom fod gan lawer o'r bobl sydd angen gwasanaethau anghenion cymhleth iawn a'u bod angen lleoliadau arbenigol. Mae llawer o oedolion eraill a chanddynt Anableddau Dysgu angen mwy o help i fyw'n annibynnol a chael cyfleoedd i weithio. Os ydym yn parhau i wneud yr un peth eleni, gwyddom y

*"Hapus iawn efo'r gwasanaeth. Os yw fy ngweithiwr i ffwrdd, mae rhywun arall ar gael bob amser i helpu."*

*"Carwn weld y lwfans teithio'n cael ei ddyrannu'n deg i ofalwyr."*

**(Holiadur i ofalwyr maeth Tachwedd 2009)**

bydd gorwariant ar gyllideb y Gwasanaethau Anabledd Dysgu o tua £450,000. Nid yw hyn yn dderbyniol gan y Gwasanaeth na'r Cyngor ac mae camau brys yn cael eu cymryd i osgoi hyn ac i sicrhau fod gwasanaethau yn ddiogel ac yn gyson pan mae eu hangen.

Fel pob adran arall o'r Cyngor, bydd yn rhaid i'r Gwasanaethau Cymdeithasol docio a lleihau'r swm y mae'n ei wario ar wasanaethau. Erbyn 2013 bydd yn rhaid i ni arbed £3.18miliwn o'n cyllideb ar lefel 2009/10. Gwneir pob ymdrech i sicrhau na fydd hyn yn golygu stopio gwasanaethau ond ein bod yn newid ein ffordd o wneud pethau. Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo ei agenda arbedion yn ystod 2009. Mae'r gwasanaeth yn brysur yn awr yn gwneud yn siŵr ein bod yn gallu cyflawni'r arbedion hyn. Er na fydd hon yn dasg hawdd, ac fe fydd yn golygu y bydd yn rhaid i lawer o staff newid y ffordd y maent yn gwneud pethau, mae cyfle am newidiadau dymunol.

*"Staff cyfeillgar ac ardderchog sy'n parchu fy ngallu i asesu pethau. "*

*"Bu'n rhaid i ni ddisgwyl braidd yn hir i gael canlyniad yr asesiad ariannol, mae'n debyg oherwydd yr oedi cyn cael gwybodaeth o'r banciau ac ati. "*

**(Holiadur Blynyddol y Gwasanaethau Oedolion Mawrth 2010)**

## 2. EIN BLAENORIAETHAU A'R PETHAU Y MAE ANGEN I NI WELLA ARNYNT

Yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf, mae'r gwasanaeth wedi bod yn edrych yn ôl ar y pethau sydd wedi cael eu cyflawni yn ystod 2009/10 ac yn adnabod y pethau pwysicaf y mae angen i ni wella arnynt. Mae'r blaenoriaethau hyn wedi cael eu cyflwyno i Aelodau er mwyn iddynt benderfynu a ddylid eu cynnwys yn rhaglen blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn nesaf. Golyga hyn y bydd y Cyngor i gyd y tu cefn i'r meysydd gwaith wrth i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ymrwymo i gynnydd parhaus fel y cytunwyd o fewn proses Adolygiad ar y Cyd. Bydd y rhan nesaf mewn dwy ran. Mae pob un o'r meysydd gwaith yn rhan o raglen waith y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Ngwynedd.

## RHAN 1 – CYFRIFOLDEBAU CRAIDD I'R GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

**DIOGELU A CHADW POBL YN DDIOGEL**

Y dasg bwysicaf i'r Gwasanaethau Cymdeithasol yw gwneud yn siŵr fod y bobl fwyaf bregus yn ddiogel. Mae hyn yn cynnwys plant sydd o fewn y broses amddiffyn plant ac oedolion bregus. Mae'r ddau wasanaeth wedi cael arolygiadau ffafriol yn sgîl arolwg cenedlaethol gan AGGCC yn dilyn trasiedi Babi P a'r rhaglen ar gyfer oedolion bregus (POVA). Mae arolygiadau ychwanegol wedi cael eu cwblhau o fewn y flwyddyn ar gyfer Plant mewn Gofal, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, Gwasanaeth Arbenigol Plant a'r Gwasanaeth Lleoli Oedolion. Mae'r arolygiadau hyn wedi nodi ymarfer sy'n gwella a wedi talu teyrnged i ymroddiad ac ymatebolrwydd y staff sy'n darparu'r gwasanaethau.

Mae darparu ymarfer diogel yn dibynnu ar brosesau asesu da ac ymateb ar yr adeg iawn – nid pan mae'r gwasanaethau'n rhy hwyr. Mae'r Gwasanaethau Oedolion wedi gwella ei berfformiad gan gwblhau asesiadau ac adolygiadau yn ystod y flwyddyn. O fewn y Gwasanaethau Plant, mae'r perfformiad o ran cwblhau'r asesiadau cychwynnol wedi parhau i fod yn dda, tra bo union nifer yr asesiadau craidd wedi cynyddu, mae wedi gostwng ar sail targed canran. Mae hyn yn dueddiad sy'n peri pryder ac mae'r gwasanaeth yn rhoi sylw i hyn.

Mae'r Gwasanaethau Plant wedi bod yn gwella'r ffordd y maent yn asesu ac yn adolygu plant mewn angen. Gwyddom o'r wybodaeth sydd ar gael i ni bod defnyddwyr, unwaith y mae'r cyswllt wedi'i wneud, yn gwneud sylwadau cadarnhaol am y gwasanaethau y maent yn eu derbyn.

Ochr yn ochr â hyn, mae gennym gyfrifoldeb tuag y rhai sydd angen help ar yr adegau o angen. Eto, mae hyn yn wir am y gwasanaethau plant ac oedolion. Y brif flaenoriaeth yw gwneud yn siŵr fod plant ac oedolion bregus yn ddiogel. Nid yw'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd yn cadw rhestr aros, a chaiff pob cyfeiriad newydd ei ddyrannu o fewn y tîm derbyn a chyfeirio. Mae'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch cyfeiriadau wedi gwella'n arw, gyda pherfformiad o 99.7% yn ystod 2009/10. Ar ôl cwblhau asesiad cychwynnol, mae'r cyfeiriadau y mae angen rhagor o waith arnynt, yn cael eu trosglwyddo i'r swyddfa ardal i gael eu dyrannu. Canran yr asesiadau cychwynnol a gwblhawyd o fewn yr amser statudol (7 diwrnod gwaith) yn ystod 2009/10 oedd 54.8%. Mae'r ganran hon ychydig yn is na 2008/9 yn sgîl cynnydd yn nifer y cyfeiriadau at ei gilydd (cynnydd o 3,927 yn 2008/9 i 4,205 yn 2009/10). Mae Gwasanaethau yn cael eu cynnig i blant a theuluoedd yn dilyn adnabod anghenion penodol yn dilyn asesiad. Yn anffodus, mae gennym restr aros o'r rhai sydd eisiau gwasanaethau Therapi Galwedigaethol a darpariaeth o gymhorthion ac addasiadau. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yr ydym wedi ceisio lleihau'r amseroedd aros drwy gyflwyno staff ychwanegol ond unwaith eto, mae'r galw wedi bod yn uwch nag ein gallu i ymateb iddo. Fe fydd dwy ganolfan arddangos offer newydd yn weithredol yn ystod 2010 i helpu i leihau y nifer o bobl sydd yn aros.

**GWASANAETHAU TROSGLWYDDO**

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi parhau i adeiladu ar y cynnydd a nodwyd y llynedd drwy ddatblygu gwasanaethau trosiannol i'r bobl ifanc hynny sydd angen gwasanaethau fel oedolion ifanc. Ein cyfrifoldeb yw gwneud yn siŵr bod y broses drosglwyddo mor ddidrafferth â phosibl. Erbyn hyn, mae cynlluniau wedi'u sefydlu ar gyfer y rhai sy'n trosglwyddo i wasanaethau oedolion. Nid pob plentyn mewn angen, fodd bynnag, sy'n gymwys i dderbyn gwasanaethau fel oedolion a gall hyn fod yn sefyllfa anodd i bawb sy'n gysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gallu ymestyn ein gwasanaethau yn sgîl swydd newydd y Gweithiwr Cymdeithasol i Oedolion Bregus a gyflwynwyd y llynedd. Pwrpas y swydd hon ydy cefnogi y bobl ifanc sydd ddim yn gymwys am gefnogaeth gan wasanaethau Oedolion. Mae'r swydd wedi sicrhau fod 6 person ifanc gydag anghenion dwys, gan gynnwys syndrome Asperger wedi derbyn gwasanaethau cefnogol cynhwysfawr a fyddai ddim wedi bod ar gael iddynt fel arall.

## GOFALWYR

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Gwasanaeth a'r Bartneriaeth Gofalwyr wedi elwa o gyfraniad y Swyddog Cefnogi Gofalwyr rhan-amser. Swydd arall newydd ydy hon ers 2008/9. Dyma sydd wrth wraidd y gwelliant yn y gwaith o gydlynu gweithgareddau i ofalwyr o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol a Phartneriaethau. Mae gofalwyr yn dweud mai gwell gwybodaeth yw un o'r pethau pwysicaf iddyn nhw. Cyhoeddwyd llyfryn gwybodaeth i ofalwyr yn ystod Haf 2009 a chafodd ei lansio'n swyddogol yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst 2009. Mae'r Gwasanaethau Oedolion (drwy gyllid Iechyd Parhaus), mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar hyn o bryd yn rhestru'r gwasanaethau seibiant sydd ar gael. Bydd y gwaith hwn yn dylanwadu ar y ffordd y byddwn yn cynllunio ac yn ymestyn gwasanaethau seibiant yn ystod 2010/11 ac fe fydd y gwaith mapio cychwynnol ac adroddiad cynhwysfawr ar gael yn Gorffennaf 2010.

Yn y Gwasanaethau Plant, mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi parhau i gryfhau eu gallu i nodi anghenion gofalwyr ifanc ac i ymateb iddynt gyda chynnydd pellach yn y nifer sy'n cael eu cefnogi. Fodd bynnag, mae'r gwaith hwn wedi amlygu angen i weithio'n agosach gyda'r Gwasanaeth Addysg ac i atgyfnerthu'r gefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr ifanc mewn ysgolion.

Mae swyddogion yn pryderu na allent ymateb fel y byddent yn hoffi ei wneud, i geisiadau am help yn dilyn asesiad. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos plant anabl a phlant sâl. O ystyried y sialensiau ariannol sy'n wynebu'r holl wasanaethau, bydd sicrhau ein bod yn gallu targedu gwasanaethau ataliol a chefnogol i'r rhai mwyaf anghenus yn dod yn fwy ac yn fwy o flaenoriaeth i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac i Gyngor Gwynedd.

## ARWEINYDDIAETH

Yn ystod Ebrill 2009, dychwelodd y Gwasanaethau Plant i fod dan reolaeth llinell uniongyrchol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol. Y nod oedd atgyfnerthu'r trefniant atebolrwydd o fewn gofal cymdeithasol. Mae Tîm Rheoli'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'i sefydlu erbyn hyn ac mae'n cynnwys Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Uwch Reolwyr y Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaethau Oedolion, yr Uwch Reolwr Busnes a Phennaeth y Gwasanaethau Darparu a Hamdden. Er nad yw Pennaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol yn rheolwr llinell ar Bennaeth y Gwasanaethau Darparu a Hamdden, mae presenoldeb yr Adran yn y cyfarfodydd rheoli wedi golygu ein bod wedi gallu gwneud yn siŵr bod swyddogaethau a chyfrifoldebau'r

Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael eu hystyried gyda'i gilydd. Mae hyn wedi bod yn fuddiol.

Mae swydd yr Uwch Reolwr Busnes yn newydd ac wedi bod yn weithredol ers Hydref 2009. Mae'r Gwasanaeth Busnes yn arwain ar Ddata a Pherfformiad, Comisiynu a Chontractio, Datblygu'r Gweithlu, Gweinyddiaeth a Gofal Cwsmer. Rydym eisoes yn gweld mantais y Gwasanaeth newydd hwn. Mae dod â staff at ei gilydd, a sefydlu rhai swyddi newydd, wedi golygu ein bod yn gallu gwella'r wybodaeth sydd gennym am ystyriaethau busnes gofal cymdeithasol yn ogystal â darparu cefnogaeth 'ystafell gefn' hanfodol i wasanaethau rheng flaen.

> *"Gormod o gyfnewid gofal rhwng gwasanaethau - cael fy mhasio rownd a newidiadau'n achosi problemau. Angen lleihau'r rhwystrau rhwng gwasanaethau ac eisio delio efo llai o weithwyr. Y ddau sefydliad mawr, lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ddim yn gweithio gyda'i gilyddr!"*
>
> **(Digwyddiad Ymgynghori â Chymunedau – Anghenion Gofal Cymdeithasol at y Dyfodol 2009/10)**

Mae'r aelodau etholedig wedi parhau i weithio'n glòs gyda'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol drwy'r broses o gyflawni gwelliannau. Mae'r Arweinydd Portffolio wedi bod yn ganolog i'r broses hon. Yn ogystal â'r camau a gymerwyd gan yr Arweinydd Portffolio, gwnaed cyfraniadau ychwanegol gan aelodau'r Gweithgorau amrywiol. Mae'r rhain yn cynnwys aelodau o'r Fforymau Lleol gydag Adeiladu ar gyfer y Dyfodol, y rhaglen waith Anabledd Dysgu, yr Adolygiad Strategol ar gyfer Gwasanaethau Preswyl a Grŵp Gorchwyl yr Adolygiad ar y Cyd. Nid oes amheuaeth nad yw'r diddordeb a'r cwestiynu a gafwyd gan yr aelodau etholedig wedi cyfrannu at ein gallu i wneud y penderfyniadau iawn ac i ystyried ym mha ffordd y caiff gwasanaethau cymdeithasol eu darparu yng Ngwynedd yn y dyfodol.

Ers canol Ebrill 2010 mae'r gwasanaethau tai a gedwid yn dilyn trsoglwyddo stoc tai y Cyngor i Gartrefi Cymunedol Gwynedd wedi'u lleoli ochr yn ochr â'r Gwasanaethau Cymdeithasol dan reolaeth llinell Pennaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol. O siarad â chynrychiolwyr staff (Tai a Gofal Cymdeithasol) mae barn gyffredinol yn eu mysg fod cyfleoedd gwirioneddol ar gael yma i wella'r ffordd yr ydym yn gweithredu mewn meysydd allweddol fel digartrefedd ymysg pobl ifanc, cefnogi pobl, ac addasiadau. Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i ganfod y ffordd orau o gynllunio a chyflawni'r hyn sydd angen ei wneud er budd y gwasanaethau tai a'r gwasanaethau cymdeithasol. Caiff hyn ei gynnwys yn ein rhaglen waith ar gyfer 2010/11.

> "Bendigedig ac angenrheidiol iawn i gael gweithwyr dwyieithog sy'n gallu siarad â'm gŵr yn y Gymraeg ac yn y Saesneg efo fi."
>
> "A minnau wedi bod yn anabl ers i mi fod yn 5 oed, dwi wedi gweld llawer o newidiadau. Yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, cafwyd llawer o welliannau ond y mae lle ar gyfer llawer mwy!"
>
> **(Holiadur Blynyddol Gwasanaethau Oedolion Mawrth 2010)**

# RHAN 2 - PRIF FEYSYDD BLAENORIAETH AR GYFER 2010/11

Ar gyfer 2010/11 mae pedwar maes allweddol wedi'u nodi fel blaenoriaeth a meysydd i'w gwella, sef:

- Comisiynu a Datblygu Gwasanaethau
- Y Gweithlu
- Perfformiad ac Adnoddau
- Ymgysylltu a Phartneriaid

Ochr yn ochr â'r pedwar maes allweddol uchod, bydd yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn dal i roi sylw dyledus i weithgarwch diogelu. Mae cynlluniau gwaith unigol wedi'u cytuno ar gyfer y gwasanaethau Oedolion a Phlant sy'n sicrhau bod y gwelliannau a welwyd dros y flwyddyn ddiwethaf yn cael eu cynnal.

Yn yr adran hon, cewch ddetholiad o uchafbwyntiau'r rhaglen waith y cytunwyd arni. Mae hefyd yn dweud sut yr ydym ni, fel gwasanaeth, wedi barnu ein hunain ynghyd â rhywfaint o wybodaeth am ein hymrwymiad i newid:

**BLAENORIAETH 1 - COMISIYNU A DATBLYGU GWASANAETHAU**

**Beth ydym yn ei olygu?**

Mae comisiynu wrth galon y gwaith o ddarparu gofal cymdeithasol effeithiol i blant ac oedolion. Dyma'r broses sy'n helpu Cyngor i benderfynu sut i wario arian er mwyn cael y gwasanaethau gorau posibl i bobl leol. Mae cynghorwyr, rheolwyr a staff ar bob lefel, defnyddwyr y gwasanaethau a gofalwyr, asiantaethau statudol a'r holl ddarparwyr gwasanaeth yn cyfrannu at hyn. Mae comisiynu effeithiol yn golygu rhagdybio anghenion a disgwyliadau at y dyfodol yn hytrach na dim ond adweithio i'r galw ar y pryd.

**Pa mor dda ydym ni a beth sydd angen ei wella?**

Mae angen i ni wneud gwelliannau sylweddol yn y maes hwn o waith, drwy gynhyrchu strategaethau comisiynu a darpariaeth effeithiol o gynlluniau i ddatblygu gwasanaethau.

Gwyddom fod angen i ni wella'r ffordd yr ydym yn comisiynu gwasanaethau. Yn ystod 2009/10, fe wnaethom lwyddo i osod sylfeini pwysig a fydd yn gweithredu fel sail i raglenni gwella hanfodol dros y ddwy flynedd nesaf. Cytunwyd ar Fframwaith Comisiynu sy'n gosod allan pwy yn union o fewn y Cyngor fydd yn gyfrifol am gyflawni'r rhaglen hon. Roedd y gwaith a gyflawnwyd wrth adolygu'r data yn ei gwneud yn glir nad oedd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ddigon o gapasiti i gyflawni'r rhaglen waith yn iawn. Cytunodd yr aelodau i swyddi ychwanegol o fewn y broses gynllunio (Ionawr 2010). Nid yw'r broses recriwtio eto'n gyflawn ond bydd hyn yn golygu y bydd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ddwy swydd bwrpasol sy'n edrych ar drefniadau Comisiynu ar gyfer gofal cymdeithasol erbyn mis Gorffennaf 2010.

Mae angen cyflawni rhagor o waith er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn cynyddu cyflymder y newid. Caiff hyn ei gyflawni drwy ddatblygu ac adolygu strategaethau comisiynu ar gyfer Gofal Cymdeithasol yn gyffredinol. Yn y lle cyntaf, rhoddir blaenoriaeth i'r gwasanaethau hynny sy'n ymwneud â Phobl Hŷn, Gwasanaethau Anabledd Dysgu a phobl sydd â nam corfforol a nam ar eu synhwyrau. Gwnaed ymrwymiad i sicrhau bod y strategaethau hyn yn cael eu datblygu a'u cyflawni mewn partneriaeth â'r Trydydd Sector a Darparwyr Annibynnol gan wneud yn siŵr ein bod yn gwneud yn fawr o'r cyfleoedd ar gyfer gweithio ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd. Mae angen i ni wella'r ffordd y mae ein gwariant yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau cytunedig. Bydd hyn yn golygu atgyfnerthu ein trefniadau monitro contractau a nodi'n glir pwy sy'n gyfrifol am beth.

Mae partneriaid hefyd wedi dweud wrthym fod hwn yn faes allweddol iddyn nhw. Gwyddom fod angen i ni fuddsoddi yn y seilwaith pan fyddwn yn ystyried anghenion gofal cymdeithasol ar gyfer y genhedlaeth nesaf. Er mwyn cyfarfod â disgwyliadau defnyddwyr a gofynion cofrestru, bydd rhaid gwella ansawdd cartrefi gofal ar draws y sector gan gynnwys maes oedolion ac anabledd dysgu. Bydd hyn yn golygu buddsoddiad cyfalaf sylweddol. Rhaid hefyd bod yn barod i fuddsoddi arian refeniw mewn ffyrdd gwahanol er mwyn uchafu gwerth o ran addasrwydd darpariaeth a gwerth am arian.

Mae'r tabl sydd ynghlwm yn amlinellu rhai o'r prif weithgareddau ar gyfer 2010/11 lle mae disgwyliad o newid sylweddol yn ein trefniadau darparu. Mae'r holl gynlluniau'n cyflwyno rhaglenni sy'n gwella gwerth am arian ond hefyd yn hyrwyddo annibyniaeth ar sail ymarfer da.

| Pobl Hŷn |
| --- |
| "Adeiladu'r Dyfodol" ac "Adolygiad Strategol o Ofal Preswyl" i bobl hŷn - er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth preswyl a llety yn addas i bwrpas ac yn unol â disgwyliadau defnyddwyr |
| Galluogi – cyflwyno trefniadau gofal cartref sy'n hyrwyddo annibyniaeth |
| Teleofal - uchafu defnydd o dechnoleg er mwyn hyrwyddo annibyniaeth |
| Trefniadau gofal dydd - adolygu'r trefniadau a chyflwyno cynlluniau cefnogaeth ar sail cymunedol ynghŷd â'r Trydydd Sector |
| Sicrhau cysondeb ffioedd gofal cartref/sefydlu system Froceriaeth – cysoni taliadau ar draws y sector sy'n darparu ar sail cymharol Gogledd Cymru a thryloywder yn ein trefniadau busnes |
| **Anableddau Dysgu** |
| Llety – rhesymoli ein darpariaeth sy'n cyfarfod â disgwyliadau statudol ac ymarfer da |
| Adolygu Pecynnau gofal - sicrhau cysondeb darpariaeth |
| Trefniadau gofal dydd - uchafu cyfleon gwaith lle'n addas a chysondeb darpariaeth |
| **Plant a Theuluoedd** |
| Darpariaeth gofal seibiant - adnabod angen a chynyddu'r ddarpariaeth |

## BLAENORIAETH 2 - Y GWEITHLU

### Beth ydym yn ei olygu?

Y gweithlu gofal cymdeithasol yw asgwrn cefn y gyfundrefn gofal cymdeithasol. Er mwyn sicrhau bod plant ac oedolion yn ddiogel ac yn cael gofal mewn ffordd sy'n parchu eu hurddas a'u hannibyniaeth, mae'n hanfodol fod gennym weithlu medrus, ymroddedig, sy'n cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi i wneud eu gorau. Mae'r gweithlu gofal cymdeithasol yn cwmpasu'r rhai sy'n gweithio yn y gwasanaethau cyhoeddus a gaiff eu darparu, naill ai'n uniongyrchol neu drwy gomisiwn, gan yr awdurdod lleol. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau a gaiff eu darparu gan ddarparwyr preifat, annibynnol ac o'r trydydd sector.

### Pa mor dda ydym ni a beth sydd angen ei Wella?

Rydym yn ffodus yng Ngwynedd gan fod canran dda o'n staff yn gymwys ac wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Gofal, ac yn ddwyieithog hefyd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf buom yn llwyddiannus wrth recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol. O'r data sydd ar gael, mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n cael eu cyflogi gan y Cyngor a'r sector gofal. Mae Cynllun Datblygu'r Gweithlu wedi cael ei weithredu'n llwyddiannus ar draws y sector gofal.

Mae angen i ni wella ein gallu i gynllunio ar gyfer y staff y bydd eu hangen at y dyfodol. Gwyddom y bydd y newidiadau a gynlluniwyd yn effeithio ar staff. Mae'r rhain yn amrywio o gyflwyno "gweithio hyblyg" lle na fydd staff yn gweithio o swyddfeydd ond yn gysylltiedig â Llyfrgelloedd, meddygfeydd Meddygon Teulu ayb, i gynyddu nifer y staff gofal cartref sy'n gweithio gyda'r Cynllun Galluogi. Eu gwaith nhw yw gwneud yn siŵr fod pobl yn adennill eu sgiliau a'u hyder yn dilyn codwm neu salwch. Mae nifer gynyddol o'r gwasanaethau hyn yn debygol o gael eu darparu ar y cyd gyda'r sector iechyd neu gael eu trefnu'n uniongyrchol gan deuluoedd drwy daliadau uniongyrchol. Felly mae angen i ni fod yn barod, a gwneud yn siŵr ein bod yn paratoi ein staff.

Gwyddom hefyd fod staff o fewn y gwasanaethau cymdeithasol yn dweud eu bod dan bwysau. O'u cymharu ag adrannau eraill o'r Cyngor, yr oedd mwy ohonynt yn dweud eu bod dan bwysau. Gwyddom fod llawer o oriau yn cael eu gweithio y tu hwnt i gytundebau contract a bod llawer o'r gwaith hwn yn codi o'r angen i amddiffyn plant ac oedolion bregus. Comisiynwyd adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol o'r Adran Adnoddau Dynol yn ystod 2009. Mae hwn, erbyn hyn, wedi dod i law ac un o'n blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod fydd ymateb i'r adroddiad hwn.

Mae gan Gyngor Gwynedd gyfrifoldeb i sicrhau bod ei weithwyr cyflogedig yn cael cefnogaeth briodol ond mae'r angen i adnabod ac ymateb i nodweddion unigryw gofal cymdeithasol wedi'i adnabod ar sail Cymru gyfan. Mae Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGC), ar y cyd gydag awdurdodau lleol, wedi datblygu rhaglen arbennig o hyfforddiant i reolwyr ym maes gofal cymdeithasol. Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn bartner allweddol yn y gwaith o ddatblygu'r rhaglen hon. Bydd chwech o'r rheolwyr yn mynychu'r cwrs cyntaf o hyfforddiant yn 2010 gyda 4 arall i ddechrau yn 2011. Mae hyn yn ychwanegol i'r Rhaglen o Hyfforddiant Corfforaethol sy'n cael ei darparu gan Gyngor Gwynedd.

Cyflwynodd yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol bolisi goruchwylio diwygiedig yn ystod 2009. Yn sgîl archwiliad a gwblhawyd yn ystod mis Chwefror 2010, gwelwyd bod arfer da ond fod angen mwy o gysondeb yn y defnydd o fformatau cytunedig. Mae archwiliad arall wedi'i drefnu ar gyfer mis Hydref 2010. Mae sicrhau bod staff yn derbyn goruchwyliaeth a chefnogaeth yn bwysig er mwyn sicrhau bod ymarfer yn ddiogel. Mae'n hanfodol sicrhau felly bod y drefn ymarfer yn cael ei sefydlu a'i chysoni o fewn trefniadau'r gwasanaeth.

Er ein bod yn dweud bod yr elfen o recriwtio gweithwyr cymdeithasol yn dda, yr ydym wedi parhau i gael anawsterau wrth recriwtio gofalwyr cartref yn Ne'r Sir. Mae hyn wedi golygu

nad ydym wedi gallu darparu rhai pecynnau gofal yn brydlon. I rai pobl, mae hyn wedi golygu gorfod aros yn yr ysbyty yn hirach na'r angen.

Mae darparu gwasanaeth da yn dibynnu hefyd ar gael gwasanaethau cymorth gweinyddol da. Yn ystod 2009, daeth y Gwasanaethau Plant yn ôl dan reolaeth linell uniongyrchol y Gwasanaethau Cymdeithasol. Cafwyd newidiadau eraill mewn ymateb i symud swyddfeydd ac ad-drefnu swyddi. Golyga hyn fod angen i ni adolygu ein systemau gweinyddol i wneud yn siŵr fod gennym rywun yn ein derbynfeydd yn fwy cyson ac i gefnogi'r gwaith a wneir gan staff gwaith cymdeithasol.

## BLAENORIAETH 3 - PERFFORMIAD AC ADNODDAU

### Pa mor dda ydym ni a beth sydd angen ei Wella?

Mae angen i ni atgyfnerthu'r ffordd yr ydym yn rheoli perfformiad ac adnoddau er mwyn gwneud yn siŵr fod y gwasanaethau a ddarparwn yn briodol ac yn gwneud gwahaniaeth, o'r ansawdd cywir ac yn cynnig gwerth am arian.

Wrth adolygu ein perfformiad, mae'r gwasanaeth o'r farn fod cynnydd wedi'i sicrhau. Mae'r teclyn "Canlyniadau yn Cyfrif" (RBA) (gweler geirfa, Atodiad 4) wedi'i gyflwyno drwy'r gwasanaeth fel ffordd o sicrhau ein bod yn monitro ac yn adolygu fod gwasanaethau yn cyflawni yn union beth yr ydym yn ceisio ei gyflawni. Yn ystod y flwyddyn, yr ydym wedi cyflwyno'r ffordd hon o weithio i aelodau etholedig a'r rhai sy'n gweithio gyda ni. Yn ystod mis Mawrth 2010, yr oedd oddeutu 70 o unigolion o wahanol asiantaethau a phartneriaethau wedi mynychu seminar a oedd yn cyflwyno'r ffordd hon o weithio. Mae hefyd wedi'i gyflwyno'n llwyddiannus gyda'r Bartneriaeth Gofalwyr.

Mae'r uned Data a Pherfformiad wedi'i sefydlu o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol, a bydd yr uned yn rhoi cefnogaeth bwrpasol i'r agenda gofal cymdeithasol o fewn y Cyngor. Bydd hyn yn golygu y bydd y wybodaeth angenrheidiol i fonitro perfformiad yn cael ei chadw mewn un lle ac yn helpu, nid yn unig yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, ond eraill hefyd sydd angen gwybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir yma yng Ngwynedd. Mae dros 50% o'r staff wedi'u penodi erbyn hyn.

Yn y Gwasanaethau Oedolion, cafwyd gwelliant amlwg yn swm ac ansawdd y wybodaeth sydd ar gael drwy'r system gofnodi electronig. Mae hyn yn bwysig iawn pan fyddwn eisiau

gwirio ansawdd y gwasanaethau a ddarperir ac i gael y data angenrheidiol i gynllunio a chomisiynu gwasanaethau.

Roedd yr arolygiadau, yn y gwasanaethau oedolion a'r gwasanaethau plant, yn dweud fod gwelliant yn ansawdd a chysondeb y gwasanaethau rheng flaen ers arolwg yr Adolygiad ar y Cyd. Cafwyd sylwadau a nodai fod y gwelliannau yn adlewyrchu mwy o eglurder am y safonau disgwyliedig a'r ffordd yr oedd angen gwneud pethau.

Mae angen i ni wneud yn siŵr fod y data yn gywir ar draws pob maes gwasanaeth sy'n cynnwys gwybodaeth am ba mor dda yr ydym yn gwneud. I gyflawni hyn, mae'n rhaid i ni wella'r ffordd yr ydym yn defnyddio RAISE (ein system gofnodi electronig).

Ddwy flynedd yn ôl yr oedd y Gwasanaethau Oedolion ymhell y tu ôl i awdurdodau eraill yng Nghymru yn y ffordd yr oeddent yn cofnodi gwybodaeth. Rhoddwyd adnoddau pellach i'r Gwasanaeth Oedolion ac erbyn hyn, yr ydym wedi llwyddo i ddal i fyny. Fel canlyniad, mae hyn wedi golygu nad yw'r Gwasanaethau Plant, a fu gynt yn arwain y ffordd o ran eu defnydd o system gofnodi electroneg (T.G), wedi gallu datblygu mor gyflym yn ystod y cyfnod hwn, oherwydd diffyg mewn adnoddau cefnogol. Mae hyn wedi effeithio ar allu y Gwasanaeth i gyfarfod â gofynion statudol o weithredu System Integredig Plant (ICS). Dros y flwyddyn nesaf, bydd yn rhaid dangos cynnydd ar draws y gwasanaethau oedolion a'r gwasanaethau plant.

Bydd y systemau sydd ar gael i sicrhau bod gwybodaeth ar gael, a bod y wybodaeth honno'n gywir, yn parhau i wella. Ochr yn ochr â hyn, bydd angen i reolwyr a staff, drwy'r gwasanaeth, wneud yn siŵr eu bod yn dilyn ymarfer cytunedig o fewn y cyfnodau priodol ar gyfer cyflwyno gwybodaeth. Ni allwn dystio i wasanaethau cyson o ansawdd uchel oni fydd staff a systemau gwybodaeth yn gweithio'n dda gyda'i gilydd.

Bydd cyflawni gwell perfformiad hefyd yn hanfodol wrth reoli cyllidebau. Rhaid i'r gwasanaeth wella'r ffordd y mae'n adrodd ar yr hyn y mae'n ei wario, gan wneud yn siŵr ei fod yn aros o fewn cyllidebau cytunedig. Rhaid iddo hefyd gyflawni ar y targedau arbedion.

**BLAENORIAETH 4 - GWAITH PARTNERIAETH AC YMGYSYLLTU**

**Pa mor dda ydym ni a beth sydd angen ei Wella?**

Mae angen i ni gynnwys ein rhanddeiliaid wrth gynllunio, gweithredu a monitro gwasanaethau a pharhau i gynnig gwasanaethau gyda'n gilydd pan mae hynny'n fwy effeithiol ac effeithlon.

Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, rydym wedi gwneud yn siŵr ein bod wedi cynnwys ein partneriaid o'r cychwyn cyntaf pan mae rhaglenni gwaith newydd yn cael eu cynllunio. Un enghraifft o hyn fyddai'r grwpiau a sefydlwyd i adolygu'r ffordd y byddwn yn darparu gwasanaethau anabledd dysgu yn y dyfodol.

Rydym wedi newid ein ffordd o ddarparu gwasanaethau oedolion drwy sefydlu timau amlddisgyblaethol sy'n gweithio'n lleol. Mae'r timau hyn yn cynnwys Meddygon Teulu, gweithwyr BIPBC (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) a'r Trydydd Sector. Mae'r timau newydd hyn yn golygu fod y gwasanaeth yn gwbl ddi-dor. Trwy wneud hyn, dylai'r rhai sydd angen gwasanaethau gael ymateb cyflymach sy'n llai gwastraffus gan fod staff ac asiantaethau'n rhannu gwybodaeth ac adnoddau.

Cafwyd datblygiadau cadarnhaol eraill yn y gwasanaethau iechyd gyda'n timau Iechyd Meddwl, timau Anabledd Dysgu a'r ddarpariaeth ar gyfer plant anabl a phlant sy'n wael, yn cael eu rheoli a'u darparu ar sail partneriaeth. Yn anffodus, mae'r ad-drefnu o fewn y gymuned iechyd wedi golygu nad ydym wedi gallu cwblhau ein cynlluniau i gael trefniadau partneriaeth ffurfiol. Tra bo hyn yn peri siom ar lefel strategol y mae, o anghenraid, wedi effeithio ar y modd y caiff gwasanaethau eu darparu o ddydd i ddydd. Rydym yn ffodus o gael perthynas waith dda iawn gyda'n cydweithwyr ar draws y sector gofal cymdeithasol.

Mae'r berthynas waith yn gadarn hefyd gyda phartneriaid statudol eraill sy'n cynnwys Heddlu Gogledd Cymru a'r Gwasanaeth Tân ac Achub. O fewn y Gwasanaethau Plant, mae perthynas waith glòs iawn gyda'r Heddlu. Cwblhawyd gwaith yn ddiweddar i wella'r ffordd y caiff cyfeiriadau eu gwneud i'r gwasanaeth. Mae hyn wedi galluogi'r Gwasanaeth i brosesu a rheoli cyfeiriadau gan yr Heddlu mewn ffordd llawer mwy effeithlon gan ganiatáu i ni ganolbwyntio ar, a rhoi blaenoriaeth i, gyfeiriadau amddiffyn plant a thrais yn y cartref. Mae ymrwymiad ar y cyd i wneud yn siŵr bod arferion yn ddiogel gan sicrhau bod plant a theuluoedd yn gallu cael at gymorth a chefnogaeth ar yr adeg iawn. Mae'r Gwasanaeth Tân wedi gweithio'n glòs gyda'r Gwasanaethau Oedolion i wneud yn siŵr ein bod yn cynnig help ar ddiogelwch tân.

Mae'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio fel partner allweddol o fewn Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Gwynedd a Phartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc Gwynedd. Mae'r Gwasanaethau Plant wedi adolygu'r aelodaeth yn ystod y flwyddyn i wneud yn siŵr fod y gwasanaeth yn ymgysylltu'n briodol gyda phroses gynllunio'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc. Mae ein blaenoriaethau wedi cael eu trafod a'u datblygu o fewn y partneriaethau hyn.

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn cefnogi'r gwaith o redeg tair prif bartneriaeth o fewn Cyngor Gwynedd, sef y Bwrdd Lleol Diogelu Plant, y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a'r Bartneriaeth Gofalwyr. Mae Pennaeth y Gwasanaeth (cyfarwyddwr statudol) hefyd yn cadeirio Grwp Gweithredol y Cynllun y Sbectrwm Awtistig ar ran y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles. Bu'n flwyddyn brysur a llwyddiannus i bob un o'r byrddau partneriaeth hyn.

Bu hon yn flwyddyn bwysig a phrysur o ystyried ein gwaith gydag awdurdodau lleol eraill yng Ngogledd Cymru. Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru, erbyn hyn, yn weithredol a bydd yn arwain at gynyddu cysondeb a rhannu adnoddau prin. Mae yna hefyd ymrwymiad clir i sicrhau ein bod yn datblygu gwasanaethau eraill fel Teleofal a Gwasanaethau Anabledd Dysgu ar sail Gogledd Cymru. Mae'r datblygiadau hyn yn werth chweil ond mae'n rhaid wrth amser ac ymroddiad os ydynt am lwyddo. Mae swyddogion yno i wneud yn siŵr fod anghenion trigolion Gwynedd yn cael eu hystyried a'u cynrychioli'n briodol gan gynnwys anghenion daearyddol a diwylliannol.

O fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol mae'r Gwasanaeth Gofal Cwsmer wedi cael ei atgyfnerthu. Gyda phenodiad swyddog arall, mae'n bosibl, erbyn hyn, darparu gweithiwr pwrpasol ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau Plant. Golyga hyn ein bod wedi gallu gwella ein perfformiad wrth ymateb i gwynion a cheisiadau am wybodaeth gan ddefnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a chynrychiolwyr eraill fel aelodau etholedig.

Gyda'r capasiti ychwanegol hwn, mae hi wedi bod yn bosibl gwella'r ffordd yr ydym yn ymgynghori gyda'n defnyddwyr am y gwasanaethau a dderbyniant. Yn ystod mis Mawrth 2010, ymgynghorwyd â 3,000 o ddefnyddwyr yn y gwasanaethau oedolion. Roedd y gyfradd ddychwelyd yn 30%.

Mae'r sesiynau "lleisio barn" gyda phobl ifanc mewn gofal (gyda chefnogaeth y Panel Rhiant Corfforaethol) wedi bod yn llwyddiannus ac wedi helpu staff ac aelodau i ddeall barn pobl ifanc mewn gofal a'r pethau sydd bwysicaf iddyn nhw pan gaiff gwasanaethau eu darparu.

Wrth i effaith yr ad-drefnu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sefydlogi, rydym yn edrych ymlaen at weithredu a ffurfioli'r trefniadau partneriaeth o fewn y gwasanaethau a grybwyllir uchod. Rydym yn ymrwymedig hefyd i ddarparu mwy o wasanaethau ar y cyd gydag Iechyd. Credwn y bydd gweithio gyda'n gilydd yn gwella'r cyfleoedd sydd gennym o wneud yn siŵr fod gwasanaethau yn cael eu darparu yn y cymunedau y mae pobl yn byw ynddynt ac y byddant yn llai dryslyd i lawer o ddefnyddwyr gwasanaeth.

Mae angen i ni addasu ein ffordd o weithio gyda phartneriaid o'r Trydydd Sector ac o'r Sector Annibynnol. Gwneir hynny drwy adolygu effeithioldeb y cyfarfodydd presennol a phenderfynu sut y gallwn rannu gwybodaeth yn gynharach a rhesymoli'r nifer o wahanol gyfarfodydd a gaiff eu trefnu ar hyn o bryd.

Gwyddom ei bod yn debygol y bydd llai o arian ar gyfer gwaith partneriaeth dros yr ychydig flynyddoedd i ddod gydag ansicrwydd ynghylch y Gronfa Datblygu Rheoli Perfformiad a'r Grant ar gyfer Cydweithio. Golyga hyn fod yn rhaid i ni fod yn glir iawn gyda'n partneriaid am y gweithgareddau sy'n derbyn blaenoriaeth ac sydd fwyaf pwysig ac effeithiol wrth amddiffyn a chefnogi'r rhai mwyaf bregus yn ein cymunedau.

Er ein bod wedi gwneud llawer eleni i ymgysylltu â'n partneriaid a'n defnyddwyr, bwriadwn wneud mwy fyth yn y flwyddyn i ddod. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau fod defnyddwyr gwasanaeth a'u gofalwyr yn chwarae rhan ganolog yn y ffordd yr ydym yn cynllunio ac yn arfarnu gwasanaethau. Un enghraifft o hyn fydd dysgu yn sgîl cwynion a gwneud yn siŵr y defnyddir hynny i wella ymarfer.

## 3. SUT Y BYDDWN YN MONITRO'R GWELLIANNAU HYN

Mae'r pedwar maes gwaith sy'n derbyn blaenoriaeth yn gyfrifoldeb i'r Bwrdd Rhaglen sydd newydd ei sefydlu. Bydd y cynnydd yn erbyn y 4 gwelliant allweddol yn cael ei fonitro a'i graffu gan y Bwrdd yn ddeufisol. Bydd gwelliannau eraill a nodir yn cael eu cynnwys yng Nghynllun Busnes yr Adran ac yn cael eu montiro bob mis gan Dîm Rheoli'r Adran.

## 4. ATODIADAU

Darperir y canlynol fel atodiadau i'r adroddiad:

1. Rhestr o gridiau tystiolaeth a gwblhawyd a sut i gael atynt
2. Proffil o ardal Gwynedd
3. Ein perfformiad yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Statudol 2009/10 (y mae'r Adran yn adrodd yn flynyddol arnynt i Uned Ddata Cymru)
4. Rhestr Termau
5. Canlyniadau'n Cyfrif: Gwella Gwasanaethau: Darpariaeth i Ofalwyr